Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

PANEL YMGYNGHORI Y STRATEGAETH GOETIROEDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2007 YNG NGWESTYN CASTELL RHUTHUN, RHUTHUN

Presennol:
Roger Cooper, Cadeirydd
Dr Alun Gee
Hilary Miller
Tim Kirk
Dr Tim Stowe
John Lloyd Jones
Celia Thomas
Gareth Price
Yr Athro Colin Price
Bernard Llewelyn
David Jenkins
Bob Vaughan
David Hughes
Dr John Edington
Nigel Ajax-Lewis
Philippe Morgan
Rory Francis
Sue Gittins

Pwyllgor Cenedlaethol:
Geraint George
Judith Webb
Trefor Owen
Jon Owen Jones

Comisiwn Coedwigaeth Cymru:
Ian Forshaw
Chris Edwards
Clive Thomas
Mike Pitcher
Paul Finch
Michelle Bromley
Paul Sherrington
Jane Holloway
Debbie Westlake (ysgrifennydd cofnodion)

Ymddiheuriadau:
Helena Fox
Alex Brownlie
Chris Inglis

EITEM 1
CROESO A CHYFLWYNIADAU
1. Croesawodd y Cadeirydd, Roger Cooper, y Panel newydd i'r cyfarfod cyntaf. Cyflwynodd pawb eu hunain a dweud ym mha faes roeddent yn arbenigo. Cofnodwyd yr **Ymddiheuriadau**. Soniodd Clive Thomas am **swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Panel**. Rhoddodd y **Cadeirydd grynodeb** o'r digwyddiadau yr oedd wedi cymryd rhan ynddynt yn ddiweddar.

COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
2. Paragraff 30 – Gwnaeth Paul Finch gais i newid y geiriad i ddarllen 'Roedd cyfanswm o 16 is-brosiect ac, o'r rhain, roedd gan ddeg bartneriaid o Gymru'.

3. Paragraff 40 – Gwnaeth Paul Finch gais i newid y geiriad i ddarllen 'Holodd y Cadeirydd a ellid cynnwys iechyd ac addysg ond atebodd Mr Finch fod yr ESF yn ymwneud mwy â hyfforddi a chreu swyddi'.

4. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ar ôl i'r newidiadau y gofynnodd Paul Finch amdanynt gael eu gwneud.

CAMAU I'W CYMRYD/MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF
Codwyd dwy eitem a oedd ar goll o'r daflen '**Camau i'w Cymryd o'r Cyfarfod Diwethaf'** -

5. Paragraff 17 - Chris Jones (FCW) i gysylltu â Tom Nisbett a Huw Thomas i gael rhagor o wybodaeth am goedwig Great Triley ar gyfer aelodau WSAP. Chris Jones i roi rhagor o wybodaeth i'r Panel erbyn y cyfarfod nesaf (17 Mai 2007).

6. Paragraff 21 – cytunodd y Panel yr hoffent gael y newyddion diweddaraf ac adolygiad o waith Gweithlu St Regis. Bydd Judith Webb yn mynd i'r afael â hyn ac yn adrodd yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf.

7. Dywedodd Celia Thomas fod sïon bod problemau gyda'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) a thaliadau Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG). Cadarnhaodd Ian Forshaw nad Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) oedd yn gyfrifol am yr oedi ond mai materion yn ymwneud â chyllideb y CDG oeddent a bod trefniadau'r etholiad wedi'u dal yn ôl. Roedd y mater wedi'i ddatrys erbyn hyn.

8. Mynegodd Celia Thomas bryderon am waith CIPAG. Roedd rhai'n teimlo'n gryf na chafwyd ymateb er bod yr aelodau wedi cyfrannu llawer a gwneud cryn ymdrech. Trafodir hyn yn llawnach yn eitem 2.

9. Dywedodd Celia Thomas y byddai cylchlythyr i randdeiliaid yn syniad da er mwyn rhannu gwybodaeth. Dywedodd Ian Forshaw bod adnoddau'n brin i wneud hyn ond efallai y gellid cynnwys eitemau newyddion yng nghylchlythyr Coetiroedd Gwell i Gymru ac y gellid ehangu'r rhestr ddosbarthu.

CAMAU I'W CYMRYD: CCC i ystyried a fyddai modd ehangu cylchlythyr CGG a'r dosbarthiad i gynnwys WSAP (Panel a phartneriaid).

EITEM 2
YMWNEUD Â'R GYMUNED

10. Cytunai Chris Edwards â'r hyn a ddywedodd Celia Thomas am ddiffyg ymwneud â'r gymuned. Bydd aelod newydd o'r Tîm Polisi yn symud ymlaen â'r materion hyn. Dywdedodd Ian Forshaw bod y mater hwn wedi'i godi yng nghyhnadledd Robinwood yn ddiweddar ond pwysleisiodd bod CCC yn gwneud llawer o waith yn y gymuned e.e. Prosiect Coedydd Derw Meirionnydd ond bod angen llawer o adnoddau. Dywedodd fod angen i CCC ystryried yr hyn y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud.

11. Dywedodd Chris Edwards fod CCC eisoes wedi paratoi papur am waith cymunedol (ar dir Llywodraeth Cynulliad Cymru) ond nad oedd y papur wedi'i ddosbarthu'n allanol. Dywedodd Celia Thomas y dylid cael mwy o ymgynghori a thrafod os oedd cynlluniau'n effeithio ar gymunedau. Dywedodd bod llawer o benderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol yn anwybyddu'r cymunedau ac felly'n codi rhwystrau. Awgrymodd John Edington y gellid paratoi canllawiau cymunedol a fyddai'n cynnwys ymgynghori. Awgrymodd Philippe Morgan y gellid defnyddio proses o gynnwys y gymuned a ddatblygwyd eisoes ond nid trwy weithio o'r brig i lawr. Roedd ffordd Dominic Driver yn gweithio'n dda. Holodd Sue Gittins a fyddai WSAP yn cael cyfle i gynnig sylwadau. Cytunwyd y dylid gwahodd WSAP i gynnig sylwadau ar y papur drafft.

12. Roedd cytundeb cyffredinol y dylid ail-gynnull CIPAG a gofynnwyd i aelodau'r Panel sôn wrth Chris Edwards os oeddent yn dymuno cael rhan yn y broses.

CAMAU I'W CYMRYD:
Ail-gynnull CIPAG. Dylai unrhyw aelod o'r Panel sy'n dymuno bod â rhan yn y broses gysylltu â Chris Edwards.
Gwahoddir WSAP i gynnig sylwadau ar y papur drafft am gynnwys y gymuned. Chris Edwards a Celia Thomas i drafod y mater.

EITEM 3
FFERMIO CYNALIADWY A'R AMGYLCHEDD

13. Dywedodd Chris Edwards wrth y Panel na chafodd CCC wahoddiad i fod yn rhan o Grŵp 2020 y Cynllun Datblygu Gwledig. Roedd y Grŵp wedi anfon holiadur at grwpiau rhanddeiliaid ac anfonodd CCC ei ymateb yn syth at ysgrifenyddiaeth Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r grŵp. Soniodd Bernard Llewelyn ei fod wedi ymateb fel unigolyn ac mewn swyddogaeth arall a chytunodd bod ymateb y sector cig eidion yn debyg i ymateb y sector coedwigaeth. Roedd pwynt CCC am raddfa'r dirwedd yn bwysig iddo gan y dylid talu sylw i agweddau ehangach ar reoli tir. Esboniodd Chris Edwards ei fod wedi cael cais i roi cyflwyniad i gyfarfod mis Rhagfyr y Grŵp 2020. Roedd ei gyflwyniad ar goedwigaeth yn amlinellu cyflwr y sector coedwigaeth yn 2006 ac yn rhagweld ei gyflwr yn 2020 gan gyfeirio at fygythiadau a chyfleoedd.

14. Dywedodd Tim Kirk fod y ffaith na thalwyd llawer o sylw i goedwigaeth yn broblem gan fod gan goed ran allweddol i'w chwarae a'i bod yn hanfodol nad ydynt yn cael eu hanwybyddu. Tra byddant yn cael eu trin ar wahân, ni roddir ddigon o sylw iddynt. Dywedodd Ian Forshaw fod y sefyllfa'n gwella. Dywedodd bod CCC yn pwyso am gael eu cynnwys a bod Gareth Jones/Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi gwneud llawer i hybu'r broses hon. Ychwanegodd John Lloyd

Jones fod diogelwch bwyd ac ynni nôl ar yr agenda a bod ymchwil ar y gweill sy'n edrych ar ddefnyddio tir at ddibenion fel cynhyrchu ynni, nid ar gyfer cynhyrchu bwyd yn unig. Dywedodd Hilary Miller y gallai dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy arwain at fwy o integreiddio rhwng coedwigaeth a ffermio. Holodd David Jenkins a fyddai modd i aelodau WSAP gael gweld cyflwyniad Chris Edwards.

CAMAU I'W CYMRYD
Trefnu bod copi o gyflwyniad PowerPoint Chris Edwards i'r Grŵp 2020 ar gael.

EITEM 4
ADOLYGIAD O STRATEGAETH COETIR CYMRU
15. Rhoddodd Mike Pitcher grynodeb o'r gwaith a wnaed hyd yma, fformat y gweithdai a'r camau nesaf.

16. Mae tair prif ran i'r adolygiad o Strategaeth Coetir Cymru. Mae'r weledigaeth (wreiddiol) a oedd yn nodi pum thema a'r sylfaen dystiolaeth wedi'i gadael fel yr oedd. Mae'r Cynllun Gweithredu a'r Dangosyddion yn newydd a byddant yn atodiadau i'r brif ddogfen. Mae'r Cynllun Gweithredu'n cyfeirio at amserlen bum mlynedd.

17. Yng nghyfarfod WSAP ar 3 Hydref 2006, penderfynwyd cadw at y fformat hwn. Yng ngweithdy WSAP ar 8 Tachwedd 2006, holwyd am ymateb i'r drafft cyntaf a chytunwyd i gynnwys newid hinsawdd ac i uno coetiroedd ar gyfer pobl, twristiaeth, hamdden ac iechyd. Lluniwyd drafft diwygiedig ar 7 Ionawr 2007. Disgwylir y bydd y fersiwn ddiweddaraf yn barod i WSAP benderfynu'n derfynol arni ar 17 Mai 2007 ac i'r Pwyllgor Cenedlaethol roi sêl bendith arni ar 24 Mai 2007.

18. Yna, bu'r Panel yn ystyried y ddogfen strategaeth. Gan fod cryn drafod a diwygio wedi bod ar eiriad y ddogfen ar ôl cyfarfod yr Amwythig, awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Panel gytuno'n ffurfiol ar fframwaith y brif ddogfen: h.y. y 5 thema a'r 17 is-thema, fel y gallai'r trafodaethau yn y cyfarfod ganolbwyntio ar y 'Camau i'w Cymryd'.

19. Byddai modd gwneud mân newidiadau i eiriad y ddogfen strategaeth er mwyn pwysleisio neu egluro pwyntiau a chroesgyfeirio at faterion cysylltiedig yn y ddogfen. Felly, cafodd y fframwaith ei gymeradwyo'n ffurfio gan y Panel ar yr amod y byddai mân newidiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen.

20. Ynam, rhannwyd WSAP yn dri grŵp a gofynnwyd iddynt drafod y Cynlluniau Gweithredu. Yn sesiwn gweithdy 1, trafodwyd y tair thema allweddol (coetiroedd ar gyfer pobl, Cymru fel lleoliad ar gyfer diwydiannau coedwigaeth integredig cystadleuol, ansawdd amgylcheddol) a'r ddwy thema ryngddisgyblaethol – newid hinsawdd (lliniaru ac addasu) a rheoli coedwigoedd mewn ffyrdd cynaliadwy. Yn sesiwn gweithdy 2, ymunodd WSAP â'u grŵp 'meysydd arbenigol' a dilyn yr un broses.

21. Yn ystod pob sesiwn, gofynnwyd i'r grwpiau ystyried y materion a ganlyn –

- A benderfynwyd ar y camau cywir?
- A oes rhai o'r manylion yn amherthnasol, ar goll neu'n anghywir?
- A fydd yn ffordd o fesur cynnydd dros bum mlynedd?

- A benderfynwyd pwy fydd yn chwarae'r rhannau allweddol?
- A ellir nodi pwy fydd yn chwarae'r rhan bwysicaf?

22. Dywedodd Colin Price ei fod o'r farn fod pum thema'n ddryslyd. Teimlai Alun Gee fod y ddogfen wedi'i gwella'n fawr – ei bod yn dangos beth y bwriedir ei wneud a sut. Holodd Celia Thomas a fydd y ddogfen yn cael ei chyfeirio nôl at grŵp rhanddeiliaid ehangach ac atebodd y Cadeirydd mai mater i aelodau WSAP yw ei dosbarthu mor eang ag y credant sy'n ddoeth a chyflwyno unrhyw sylwadau i CCC. Bydd Mike Pitcher yn golygu'r fersiwn derfynol ar ôl y gweithdai ac yn dangos y newidiadau o'u cymharu â'r testun gwreiddiol. Yna, caiff ei hanfon at WSAP i'w hystyried a'i dychwelyd erbyn dyddiad penodol.

23. Yna, rhannwyd y Panel yn grwpiau a bu eu hwyluswyr (Chris Edwards, Clive Thomas, Paul Sherrington a Paul Finch) yn adrodd yn ôl wrth Mike Pitcher. Ar ôl y gweithdy, bydd yr hwyluswyr yn mynd i'r afael â fersiwn ysgrifenedig o'r sylwadau hyn. Cedwir yr holl daflenni gwaith.

CAMAU I'W CYMRYD
- Mike Pitcher i grynhoi'r newidiadau a gwneud y gwaith golygu
- Dosbarthu copïau i WSAP ymgynghori arnynt ac ymateb cyn dyddiad penodol
- Mike Pitcher i alw cyfarfod o aelodau y mae a wnelont â'r mater er mwyn penderfynu ar Ddangosyddion priodol o blith y Camau i'w Cymryd
- Mike Pitcher i ddiweddaru'r ddogfen a pharatoi fersiwn derfynol erbyn cyfarfod nesaf WSAP ar 17 Mai.

Eitem Unrhyw Fater Arall (a ddygwyd ymlaen)
24. Rhagolwg o Gynhyrchiant Coed Meddal y Sector Preifat (David Jenkins). Dywedodd David Jenkins wrth y Panel fod peth pryder am y ffigurau a nodwyd yn y rhagolwg o gynhyrchiant coed meddal yn y sector preifat a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Maent yn nodi y dylai'r sector fod yn cynhyrchu mwy o goed ond ymddengys eu bod eisoes yn gweithio hyd eithaf eu gallu – sy'n awgrymu bod rhywbeth o'i le yn rhywle.

25. Gwahoddodd Mr Jenkins y Panel i gwrdd yn anffurfiol i drafod beth allai fod o'i le. Gwahoddwyd y Panel (a gwahoddedigion) i gyfarfod ym Mangor ar 2 Ebrill 2007 (gyda Mr Jenkins, y Cadeirydd a Phil Johnston) i edrych yn wrthrychol ar faint o goed sydd ar gael a faint sy'n cyrraedd y farchnad.

EITEM 5
CYFARWYDDEB Y FFRAMWAITH DŴR
26. Bu Michelle Bromley yn sôn am gyfarwyddeb y fframwaith dŵr ac esboniodd yr amserlen ar gyfer gweithredu. Yna, gwahoddwyd y Panel i gynnig sylwadau am y cynlluniau. Dyma rai pwyntiau a godwyd –

27. Holodd Bernard Llewelyn a oedd Ewrop a'r DU yn meithrin cysylltiadau ym maes rhyng-galibro a pha brosesau sydd ar waith? Gallai amharu ar y gwaith os na wnaed dim.

28. Cytunodd Bob Vaughan fod angen i'r gwaith gael ei gydgysylltu a'i fod wedi'i godi ar lefel y DU ond mae gwahanol fethodolegau'n cael eu profi a dylai'r broses fod yn barod erbyn 2008.

29. Holodd Alun Gee pam nad oedd coedwigaeth yn cael cynrychiolaeth ar banel Afon Dyfrdwy. Atebodd Michelle Bromley fod rhai rhanddeiliaid yn cael eu dewis ac eraill yn cael eu henwebu. Ymgeisiodd CCC ond ni chawsant eu dewis. Mae'r sector coedwigaeth yn cael ei gynrychioli ond mae y tu allan i'r panel cyswllt.

30. Holodd John Edington am fygythiad asideiddio planhigfeydd conwydd a dywedodd Hilary Miller y byddai matrics asesu'n cael ei ddefnyddio i ganfod ardaloedd risg-uchel a materion cysylltiedig.

31. Dywedodd Tim Kirk fod canllawiau dŵr yn bod ers 1984 ac efallai na fyddai'r Gyfarwyddeb yn fygythiad. Dywedodd David Jenkins y byddai cyfle i ddefnyddio coetiroedd i wella ansawdd dŵr.

32. Soniodd Tim Stowe fod arllwysiadau olew a difrod a achosir gan waith mewn coedwigoedd yn bwysau ychwanegol. Ychwanegodd Tim Kirk ei bod yn anos i fusnesau bach nag i rai mawr ymdopi â goblygiadau economaidd cydymffurfio â safonau amgylcheddol. Dywedodd Celia Thomas y gallai'r arolwg o'r gwaith ar y tir fod o gymorth yn y broses gan iddo fesur 300 o safleoedd ledled y DU.

33. O ran materion arwyddocaol, holodd Michelle Bromley a oes rhai nad ydynt yn berthnasol i goedwigaeth (e.e. metalau)? Yna cafwyd trafodaeth fer. Holodd Chris Edwards a oedd y Panel yn gysurus â gosodiadau'n dweud nad yw plaleiddiaid yn amharu'n fawr ar goedwigaeth. Dywedodd John Edington efallai y byddai angen rheoli dwysach pe bai pla difrifol o bryfetach. Er y dylem hyrwyddo cyfleoedd sy'n gysylltiedig â choetiroedd, rhybuddiodd Geraint George na ddylid anwybyddu'r bygythiadau.

34. O ran amserlenni, dywedodd Miss Bromley nad yw coedwigaeth yn cael llawer o sylw o'i gymharu â sectorau eraill fel garddwriaeth. Bydd y gyfarwyddeb yn cymryd amser i'w gweithredu fesul cam tam 2015. Dywedodd Ian Forshaw fod y cyfarwyddebau coedwigaeth a dŵr yn gweithio ac y bydd CCC yn edrych ar dystiolaeth o achosion lle nad ydynt.

35. Ychwanegodd Alun Gee fod coed yn dda am warchod pridd a bod defnyddio clustogfa yn gweithio'n effeithiol ar lannau afonydd. Dywedodd Miss Bromley fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi sylw manwl i hyn ar eu gwefan a dywedodd ei bod yn barod i sôn am y datblygiadau diweddaraf. Soniodd Bob Vaughan efallai y byddai angen addasu'r amserlenni gan ei fod yn fater cymhlethond y byddai ardaloedd unigol yn cael eu hystyried.

CAMAU I'W CYMRYD
Diolchodd Miss Bromley i'r Panel am eu sylwadau a dywedodd y bydd yn eu codi yng nghyfarfod nesaf Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Mai.

UNRHYW FATER ARALL
36. Soniodd Paul Finch wrth y panel am **gynhadledd Robinwood** a gynhaliwyd rhwng 14 ac 16 Chwefror 2007. Daeth 180 o bobl i'r gynhadledd, 70 ohonynt o'r

rhanbarthau sy'n bartneriaid yn y fenter. Cafwyd cyfres o gyflwyniadau byr, gweithdai a theithiau maes. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Tamsin Dunwoody, sêl bendith ar y ddogfen swyddogol. Dywedodd Celia Thomas ei bod hi wedi bod yn y gynhadledd a'i bod yn drefnus ac yn ddiddorol iawn.

CAMAU I'W CYMRYD
Byddd adroddiad swyddogol y gynhadledd ar gael cyn hir a chaiff copi ei anfon at y Panel.

37. Soniodd Chris Edwards wrth y Panel am waith **Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru** (PFCC) a dywedodd fod Comisiwn Coedwigaeth Lloegr wedi mynegi diddordeb yn y fformat hwn.

38. Dywedodd Gareth Price fod astudiaeth o adnoddau cynaeafu wedi'i chwblhau. Roedd yn edrych ar adnoddau cynaeafu yng Nghymru ac yn asesu'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol gan roi darlun gwrthrychol o'r sector cynaeafu coed yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan PFCC.

39. Soniodd Ian Forshaw iddo fynd i'r cyfarfod lansio yng Nghaerdydd ym mis Chwefror. Dywedodd fod llawer o bobl nad oedd yn arfer mynd i bethau fel hyn, fel cynllunwyr a phenseiri, yno. Mae gan PFCC ran bwysig i'w chwarae'n cyflawni Strategaeth Coetir Cymru.

40. Bu Paul Finch yn sôn wrth y Panel am seminar nesaf GATE a gynhelir yn Estonia ar 14 a 15 Mehefin 2007. Bydd rhagor o fanylion ar gael ar ôl y Pasg. Os hoffai rhywun o'r Panel fynd yno, bydd y prosiect yn talu costau teithio a llety a dylai'r aelodau gysylltu â Rheolwr y Prosiect, Mike Over, i nodi eu diddordeb.

CAMAU I'W CYMRYD
Mike Over i ddosbarthu manylion cynhadledd CATE i WSAP pan fyddant ar gael.

LLEOLIAD A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
41. Cyhoeddodd y Cadeirydd mai digwyddiad undydd ar 17 Mai, 2007 fydd y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod yn Hope Community Hall, y Drenewydd gan ei fod yn lle hwylus i'w gyrraedd ar gludiant cyhoeddus. Prif ddiben y cyfarfod hwn fydd rhoi sêl bendith ar Strategaeth Coetir Cymru a thrafod unrhyw fusnes cyffredinol arall. Bydd yr aelodau'n cael gwybod cyn hir faint o'r gloch fydd y cyfarfod.

42. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm.